SIWRNAI DRWY'R SWYDDIADUR

Deilliannau Dysgu Gyrfa

Hunan-ymwybyddiaeth a Datblygiad Personol
Cyfleoedd Gyrfa
Cynllunio Gyrfa

Sgiliau Allweddol

Cyfathrebu
Cymhwyso Rhifau
Datrys Problemau
Technoleg Gwybodaeth
Gweithio gydag eraill
Gwella Dysgu & Datblygiad Personol

BWRIAD
Galluogi disgyblion i:

- Ddefnyddio'r Swyddiadur ar y We
- Deall amcanion Gorwelion
- Dehongli'r wybodaeth a gynhwysir yn y Swyddiadur ar y We, JobCymru.com.

CANLYNIADAU

Erbyn diwedd y sesiwn bydd disgyblion yn gallu:

- Chwilio gwybodaeth gan ddefnyddio'r Swyddiadur ar y We, JobCymru.com
- Disgrifio amcanion prosiect Gorwelion
- Enwi 4 cyflogwr lleol yn y sectorau Cynhyrchu, Gwerthu, Twristiaeth a Gwasanaeth
- Rhestru'r gwahanol benawdau ar gyfer pob cyflogwr.

ADNODDAU

- Swyddiadur ar gyfer pob disgybl neu fynediad i'r We
- OHP1 - Gorwelion
- Cwis Ar-lein – 'Taith drwy'r Swyddiadur'
- Taflen Atebion i'r Tiwtor - 'Taith drwy'r Swyddiadur'

CYFLWYNIAD - 5 munud
Cyflwynwch y disgyblion i brosiect Gorwelion. Rhowch arolwg byr iddynt o amcanion Gorwelion drwy ddangos OHP 1 - 'Gorwelion' a mynd dros y prif bwyntiau. Esboniwch fod y Swyddiadur ar y We hwn wedi ei gynhyrchu drwy brosiect Gorwelion gan Menter a Busnes.

Dywedwch wrthynt mai bwriad y sesiwn hon yw rhoi cyflwyniad iddynt i'r Swyddiadur ar y We fel eu bod yn ymwybodol o sut mae chwilio gwybodaeth gan ddefnyddio'r cyfeiriadur, a'r math o wybodaeth y byddant yn ei ganfod am yr amryw gyflogwyr. Mae'r Swyddiadur yn cynnwys proffil o gwmnïau gan gynnwys manylion am y gwahanol swyddi sydd ar gael o fewn y cwmnïau hyn. Mae'r cwmnïau wedi eu rhannu'n 4 prif gategori: Cynhyrchu, Gwerthu, Twristiaeth a Gwasanaeth.

GWEITHGAREDD 1 – 25 munud

- Sicrhewch fod gan bob disgybl gopi o'r Swyddiadur neu fynediad i wefan JobCymru.com

- Esboniwch i'r myfyrwyr y gwahanol ffyrdd o chwilio'r Swyddiadur
- Dosbarthwch gopïau o'r **cwis – 'Taith drwy'r Swyddiadur ar y We'** i bob disgybl.
- Dylent ateb y cwis yn unigol neu mewn parau. (15 munud)
- Esboniwch y system sgorio – marc am bob ateb cywir.
- Rhowch yr atebion gan ddefnyddio'r **Daflen Atebion – 'Taith drwy'r Swyddiadur'.**
- Esboniwch fod sgôr rhwng 15 a 30 o bwyntiau yn golygu eu bod yn deall eu ffordd ac yn gallu cyrraedd pen y daith.
  Llai na 15 o bwyntiau – mae angen astudio pellach er mwyn cyrraedd pen y daith.
  (10 munud)

CASGLIAD – 5 munud

Crynhowch bwrpas y sesiwn:

- Cyflwyno Gorwelion
- Dysgu sut mae defnyddio'r Swyddiadur ar y We
- Darganfod pa fath o wybodaeth a geir yn y Swyddiadur.

OHP 1

GORWELION

AMCANION GORWELION

- Ehangu'ch 'Gorwelion'/dyheadau gyrfa
- Cynyddu eich ymwybyddiaeth o ystod y gyrfaoedd a'r cyfleoedd sydd yn agored i chi
- Dangos pwysigrwydd gallu cyfathrebu'n Gymraeg yn y gweithle
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Dysgu rhagor i chi am gyflogwyr lleol

TAFLEN WAITH 1

CWIS 'TAITH DRWY'R SWYDDIADUR'

Dechreuwch eich taith yma drwy chwilio am atebion i'r cwestiynau hyn yn y Swyddiadur……

1. Rhestrwch 3 o **nodweddion gwerthfawr** mae cyflogwyr yn yr adran **Gwerthu** yn chwilio amdanynt yn eu gweithlu.
(3)

2. Rhestrwch 4 galwedigaeth y byddech yn eu canfod mewn **modurdy.**
(4)

3i. Rhestrwch **2 Westy** sydd yn y Swyddiadur.
(2)

3ii. Allwch chi enwi **2 Westy** arall yn eich ardal chi sydd **ddim** yn y Swyddiadur? (2)

4. Enwch 3 chwmni/busnes sydd â **derbynnydd**
(3)

5. Rhestrwch 3 chwmni sydd yn adran **Cynhyrchu'r** Swyddiadur. (3)

Rydych chi hanner ffordd drwy eich taith …… siwrnai dda!

6. Dewiswch 3 chyflogwr a rhestrwch eu 'prif weithgaredd':
(3)

Cyflogwr	Prif Weithgaredd
i)	
ii)	

iii)	

7. Rhestrwch 3 chwmni lle mae'r **Gymraeg** yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer pob swydd (lefel 3, 4 & 5).

(3)

8. Rhestrwch 3 chwmni sy'n cynnig **profiad gwaith** i ddisgyblion Blwyddyn 10.
(3)

9. Pa lefel o gymwysterau fyddai ei angen ar **gyfrifydd**?
(2)

10. Enwch 2 wahanol **lwybr hyfforddi** sydd yn y Swyddiadur.
(2)

Da iawn chi! Rydych chi wedi cyrraedd pen y daith, sydd yn dangos eich bod chi'n gallu ffeindio'ch ffordd o gwmpas y Swyddiadur.

TAFLEN ATEBION 1

CWIS 'TAITH DRWY'R SWYDDIADUR'

1. Rhestrwch 3 o **nodweddion gwerthfawr** mae cyflogwyr yn yr adran **Gwerthu** yn chwilio amdanynt yn eu gweithlu.
(3)

Amynedd	Cymdeithasol	Dibynadwy	Cwrtais
Sgiliau Cwsmer	Gonest	Gallu ei ymddiried	Prydlon
Gweithgar	Cyfathrebu'n dda	Hyblyg	Gwaith tîm

Mae mwyafrif y cyflogwyr yn y Swyddiadur wedi rhestru 'nodweddion gwerthfawr'.

2. Rhestrwch 4 galwedigaeth y byddech yn eu canfod mewn **modurdy.**
(4)

Peiriannydd	Rheolwr Gwerthu	Gwerthwr Rhannau
Derbynnydd	Rheolwr Rhannau	Technegydd Gweithdy
Gweinyddol	Gweithiwr Pwmp Petrol	Trwsio/Chwistrellu Cyrff Ceir

Mae yna ystod o swyddi ar gael o fewn pob sector gwaith.

3i. Rhestrwch **2 Westy** sydd yn y Swyddiadur
(2)

Rhestrir Gwestai yn adran Gwasanaeth neu Twristiaeth y Swyddiadur

3ii. Allwch chi enwi 2 arall sydd **ddim** yn y Swyddiadur? (2)

Defnyddiwch eich gwybodaeth o'r ardal leol

4. Enwch 3 chwmni/busnes sydd â **derbynnydd**
(3)

Esboniwch taw'r un yw'r sgiliau dan sylw ble bynnag fo derbynnydd yn gweithio. Mae gofyn i dderbynnydd feddu ar nifer o sgiliau e.e. sgiliau ffôn, gallu clerigol, sgiliau cwsmer, cyfathrebu, sgiliau TG, gallu trefnu, gwaith tîm.

5. Rhestrwch 3 chwmni sydd yn adran **Cynhyrchu'r** Swyddiadur
(3)

Mae cwmnïau'r Swyddiadur wedi eu rhannu'n 4 sector:
Cynhyrchu Gwerthu
Gwasanaeth Twristiaeth a Hamdden

6. Dewiswch 3 chyflogwr a rhestrwch eu 'prif weithgaredd': (3)

Mae'r wybodaeth am weithgareddau cyflogwyr yn rhoi darlun mwy cyflawn o'r economi leol.

7. Rhestrwch 3 chwmni lle mae'r **Gymraeg** yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer pob swydd

(3)

Gyferbyn â phob disgrifiad swydd yn y Swyddiadur, mae lefel rhwng 1 a 5 sy'n dynodi lefel y Gymraeg sy'n ddymunol ar gyfer y swydd.

- **Lefel 5 = Rhan helaethaf y gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Lefel 4 = Defnydd sylweddol, gan gynnwys gwaith gweinyddol**
- **Lefel 3 = Ymdrin â'r cyhoedd ar lafar**
- **Lefel 2 = Peth defnydd ymysg y gweithlu**
- **Lefel 1 = Dim defnydd**

8. Rhestrwch 3 chwmni sy'n cynnig **Profiad Gwaith** i ddisgyblion Blwyddyn 10 (3)

Mae nifer o'r cwmnïau yn y Swyddiadur yn cynnig profiad gwaith i ddisgyblion Blwyddyn 10 – nodir hyn ym mhob proffeil.

9. Pa lefel o gymwysterau fyddai ei angen ar **gyfrifydd**?

(2)

Lefel 5 Proffesiynol – mae angen gradd neu gymhwyster cyfwerth, yn ogystal â chymhwyster galwedigaethol proffesiynol.
Mae angen gwahanol gymwysterau ar gyfer gwahanol swyddi. Gyferbyn â phob swydd yn y Swyddiadur, mae lefel rhwng 1 a 5. Ffordd syml yw hon o ddangos lefel y cymwysterau ar gyfer y maes gwaith penodol hwnnw.

10. Enwch **2 wahanol lwybr hyfforddi** sydd yn y Swyddiadur

(2)

Hyfforddiant mewnol gan y cwmni
Prentisiaeth Fodern Sylfaenol
NVQ yn y gweithle

Hyfforddiant gan Ganolfan Hyfforddi'r Cwmni

Prentisiaeth Fodern
Dysgu o bell
Astudio Rhan-Amser mewn Coleg Addyg Bellach